Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee
Ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal / Inquiry into care experienced children and young people
PAC(5) CECYP - 04
Ymateb gan Barnardos / Evidence from Barnardos

**Gwerth am arian ac effeithiolrwydd y trefniadau presennol o ran lleoliadau gofal.**

**Gwybodaeth am Barnardo's Cymru a chyd-destun ei waith**

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf yn y wlad. Ar hyn o bryd mae gennym 94 o wahanol wasanaethau ledled Cymru, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag 17 o'r 22 awdurdod lleol. Yn 2016-17, buom yn gweithio'n uniongyrchol gyda 8,250 o blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae gwasanaethau Barnardo's Cymru yng Nghymru yn cynnwys: prosiectau gadael gofal a gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref, cynlluniau gofalwyr ifanc, cynlluniau maethu a mabwysiadu arbenigol, canolfannau teuluoedd a chefnogi teuluoedd, cymorth rhianta, prosiectau datblygu cymunedau, cefnogaeth deuluol i blant sy'n cael eu heffeithio gan garchariad eu rhieni, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau gan rieni, seibiant byr a gwasanaethau cynhwysol i blant a phobl ifanc anabl, asesiad a thriniaeth i bobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol neu sy'n achosi pryder a gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl, neu sydd wedi cael eu cam-drin ac wedi dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, a gwasanaethau i bobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae gwasanaethau Barnardo's Cymru i gyd yn wahanol, ond mae pob un yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r cychwyn gorau mewn bywyd, pwy bynnag ydyn nhw, beth bynnag maen nhw wedi'i wneud a beth bynnag maen nhw wedi bod drwyddo. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gawsom o'n gwaith uniongyrchol gyda phlant i ymgyrchu dros well polisi plant a gofal cymdeithasol ac i hyrwyddo hawliau pob plentyn. Credwn y gall pob plentyn, hyd yn oed y rhai mwyaf agored i niwed, weddnewid eu bywydau â chymorth priodol, cefnogaeth ymroddedig ac ychydig o ffydd. Nod ein gwaith yw cefnogi teuluoedd cryfach, plentyndod mwy diogel a dyfodol cadarnhaol i'r plant rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau gwell deilliannau i fwy o blant.

**Gwasanaeth i bobl ifanc yn gadael gofal**

Rhwng 16 a 18 oed bydd gan bobl ifanc weithiwr cymdeithasol a chynghorydd personol (PA) ond wrth adael gofal yn 18 oed budd eu perthynas â'u gweithiwr

cymdeithasol yn dod i ben a bydd y PA yn cymryd rôl ganolog yn eu bywydau o ran sefydliad a pherthnasoedd.

Cynyddodd nifer y bobl ifanc 16 a 17 oed mewn gofal gan bron i draean rhwng 2010 a 2016[1], gan chwyddo niferoedd y rhai yn gadael gwasanaethau gofal yn 18 – 21 oed. Yn y cyfamser, mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau PA mewn sawl ardal un ai wedi aros yr un fath neu wedi gostwng.

Ar hyn o bryd, mae'r pwysau ar rai gwasanaethau PA yn ei gwneud yn gynyddol anodd i PA ddarparu'r gefnogaeth o ansawdd uchel sydd ei hangen ar bobl ifanc – neu, mewn rhai achosion, i gwrdd â'u dyletswyddau statudol yng nghyswllt y rhai sy'n gadael gofal y maent yn gweithio gyda hwy. Yn 2015, adroddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) 'nad oedd gan bob un a oedd yn gadael gofal Gynllun Llwybr'[2]

I fynd i'r afael â'r mater hwn rhaid i ni ystyried sut y gellir cynyddu, dirprwyo a chefnogi capasiti adnoddau PA, neu a oes angen cynyddu buddsoddiad i gwrdd â galw achosion presennol.

**Maethu a darparwyr maethu**

Fel darparwyr gofal maeth yng Nghymru, mae Barnardo's Cymru'n bryderus am y diffyg eglurder o ran tâl ariannol i ofalwyr maeth, cost ac ansawdd y gwasanaethau cefnogi ychwanegol a ddarperir i deuluoedd maeth a sut mae'r rhain yn berthnasol i ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu. Nid oes unrhyw feincnod ariannol yn berthnasol i lefel neu radd y gwasanaeth a all gefnogi lefel gwasanaeth a thâl ariannol cyson ar draws darparwyr mewn Awdurdodau Lleol ac yn y sectorau Gwirfoddol ac Annibynnol. Yn fwy na hynny, heb ddata clir am gost, lefel y gefnogaeth i'r gwasanaeth ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'n amhosib asesu beth sy'n effeithiol o ran darparu canlyniadau da i bobl ifanc.

Trafodir y mater hwn yn Adroddiad Cam Un y Fframwaith Maethu Cenedlaethol 2015-16[3] ac, yn fwy diweddar, mae Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cymru –

---

[1] Plant yn derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran. StatsCymru, 2016

[2] Arolygiad Cenedlaethol ar ddiogelu a chynllunio gofal Plant sy'n Derbyn Gofal ac Unigolion sy'n Gadael Gofal ac yn dangos ymddygiad agored i niwed neu beryglus. CSSIW, 2015 .

[3] http://www.adsscymru.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/NFF-Phase-One-Report-Cymraeg.pdf

Arolwg ar lwfansau a thaliadau gofal maeth 2016-17[4] yn cyflwyno tystiolaeth o'r annhegwch sylweddol sy'n bodoli ar draws gwasanaethau Awdurdodau Lleol a'r sector Gwirfoddol. Ni chymerodd y sector Annibynnol ran yn yr arolwg, fodd bynnag, mae adroddiad yr arolwg yn nodi y gall 'rhywun ddamcaniaethu mai un o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lawer o ofalwyr maeth i aros gyda darparwyr annibynnol yw'r ffaith bod y lwfansau a'r ffioedd yn gymharol uwch na rhai darparwyr awdurdodau lleol'.

4 https://www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/feesandallowancestfnw.pdf